**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH GWELLA YSGOLION)**

Cofnodion cyfarfod Panel Penodiadau Arbennig (Pennaeth Gwella Ysgolion) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Llun 5 Hydref 2009 am 5.00pm

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr H H Evans, I A Gunning, C Hughes, M M Jones, D I Smith.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes, Pennaeth Personél, Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad – Dysgu Gydol Oes, Swyddog Personél a Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol, ynghyd â chynghorwyr Ian Jeffcotte a John Hamilton.

**359 EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, yn cael ei datgelu.*

**360 PENODI PENNAETH GWELLA YSGOLION**

Adroddodd y Pennaeth Personél bod tri ymgeisydd wedi mynychu'r Ganolfan Asesu ac y byddai trsosolwg o'r broses a'r ymarferion a ymgymerwyd yn cael ei roddi gan gynghorwyr y Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad ei bod wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod y Grŵp Athrawon / Llywodraethwyr a rhoddodd drosolwg o syniadau'r Grŵp ar y tri ymgeisydd. Ar y pwynt hwn, gadawodd y Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad gyfarfod y Panel.

Rhoddodd y cynghorwyr drosolwg o broses y Ganolfan Asesu a'r ymarferion a ymgymerwyd. Yn ystod y dydd, aseswyd yr ymgeiswyr o ran nifer o ffactorau a oedd yn ystyried eu harddull arwain, sgiliau rhifol, galluoedd ac ati. Cymerodd yr Aelodau'r cyfle i holi cwestiynau ar nodweddion pob un o'r ymgeiswyr.

Crynhodd y Pennaeth Personél yr adborth gan yr Aelodau o'r cyflwyniad ar yr adroddiad dadansoddi ac adroddodd y Swyddog Personél ar y farn gan y Panel Pobl Ifanc.
Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes ei syniadau ef ar haeddiannau pob ymgeisydd ac yna cyflwynodd yr Aelodau eu hadborth hwy ar ôl eu cysylltiad gyda'r ymgeiswyr ar y diwrnod. Yn y diwedd, rhoddodd y Prif Weithredwr ei farn ef ar bob un o'r ymgeiswyr.

Ystyriodd yr Aelodau bob ymgeisydd yn ofalus a dod i'r casgliad mai dim ond un, ar eu haeddiannau, a ddylai fynd ymlaen i'r cyfweliad terfynol gan y Panel.

***PENDERFYNWYD***

*(a)* *Bod ymgeisydd rhif 2 yn mynd ymlaen i'r cyfweliad terfynol gan y Panel ar 6 Hydref, a bod y Panel yn cyfarfod am 10.0am, a*

*(b)*

*(c)* *Bod yr ymgeisydd yn rhoi cyflwyniad ar bwnc i'w roddi cyn y cyfweliad terfynol ac ateb cwestiynau gan Aelodau'r Panel, a bod dyraniad y cwestiynau hynny i'w benderfynu gan y Panel.*

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45pm.

*******